Urdd

Medi 2017

Annwyl Arweinydd,

Yn y blynyddoedd diweddar lansiwyd Prosiect Llysgennad Yr Urdd, gyda'r nod o roi cyfle i ddisgyblion fod yn wyneb i'r Urdd yn eu hysgolion, gan gydweithio gyda athrawon cyswllt yr Urdd i hyrwyddo gwasanaethau y mudiad. Bu i'r prosiect gael adborth positif iawn, ac felly hoffem barhau gyda'r cynllun y flwyddyn addysgol hon.

Rydym yn awyddus i apwyntio dau llysgennad ym mhob ysgol Uwchradd a choleg yn y sir. Gall yr athrawon cyswllt benderfynu sut fyddai'r llysgenhadon yn gallu eu helpu orau, ond rhai awgrymiadau yw eu cael i hyrwyddo digwyddiadau'r Urdd trwy osod posteri, rhannu taflenni a siarad mewn gwasanaethau. Gall y llysgenhadon hysbysebu ein cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan ac ein ap hefyd.

Mae bod yn llysgennad yn gyfle gwych i ddisgybl dderbyn profiadau newydd a thrwy hynny, datblygu amrywiaeth o sgiliau fel trefnu, gweithio gydag eraill a chyfathrebu. Bydd cwrs yn cael ei gynnal i hyfforddi llysgenhadon Cymru gyfan, a gallwn ni yn Swyddfa'r Urdd gynnig cefnogaeth iddynt yn fwy lleol. Yn ddelfrydol, bydd y llysgenhadon o flwyddyn 10 i 13. Bydd yn rhaid i unrhyw un sydd yn dymuno bod yn llysgennad gwblhau ffurflen gais, a fydd yn ymarfer da i unrhyw un sydd yn bwriadu ceisio am swyddi/am le mewn prifysgol yn y dyfodol. Fydd angen gyrru'r ffurflen gais at Swyddfa'r Urdd, Gwersyll yr Urdd Llangrannog (cyfeiriad/e-bost isod) erbyn y 4ydd o Hydref, 2017. Byddwn yn dethol y llysgenhadon yn ystod yr wythnos ganlynol.

Mae croeso i chi gysylltu gyda mi os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar iawn os gallech annog eich disgyblion i geisio am y rôl hon, ac edrychaf ymlaen at ddarllen eu ceisiadau.

Yn gywir,

Sian Elin Williams
Swyddog Ieuenctid Ceredigion

Swyddfa'r Urdd,
Gwersyll yr Urdd Llangrannog,
Llangrannog, Llandysul
SA44 6AE

01239 652159
sianelin@urdd.org

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**
Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**

Cwmni Urdd Gobaith Cymru, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481